

BRO DWYNWEN 04/10/2026
Diolchgarwch am y Cynhaeaf
Harvest Thanksgiving



Colect 345

Llyfr Gweddi 1984 Hollalluog a thragwyddol Dduw, sy'n coroni'r flwyddyn â'th ddaioni, ac yn rhoddi inni ffrwythau'r ddaear yn eu tymor: dyro i ni galonnau diolchgar, fel y defnyddiwn dy roddion yn unol â'th ewyllys; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Cyfoes Arglwydd yr holl greadigaeth, yr wyt yn rhoi i ni ffrwythau'r ddaear yn eu pryd ac yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni: cynorthwya ni i dderbyn dy roddion â chalonnau diolchgar inni eu defnyddio i'th ogoniant, er lles y rhai sydd mewn angen a diwallu ein hanghenion beunyddiol; trwy Iesu Grist, Bara'r Bywyd, sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 345

Almighty and everlasting God, who crownest the year with thy goodness, and hast given to us the fruits of the earth in their season: give us, we beseech thee, grateful hearts, that we may rightly use thy gifts to thy glory; through Jesus Christ our Lord. Contemporary Lord of all creation, you give us the fruits of the earth in their season and crown the year with your goodness: help us so to receive your gifts with thankful hearts that we may use them to your glory, for the relief of those in want and to meet our daily needs; through Jesus Christ the Bread of life, who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Deuteronomium 8:7-18

Mae'r ARGLWYDD eich Duw yn mynd â chi i wlad dda, sy'n llawn nentydd, ffynhonnau a ffrydiau o ddŵr yn llifo rhwng y brynau. Gwlad lle mae digon o âd a haidd, gwinwydd, coed ffigys, pomgranadau, ac olewydd, a mêl hefyd. Felly fyddwch chi byth yn brin o fwyd yno. Ac mae digon o fwynau i'w cloddio o'r tir – haearn a chopr. Bydd gynnoch chi fwy na digon i'w fwyta, a byddwch yn moli'r ARGLWYDD eich Duw am roi gwlad mor dda i chi.

“Gwnewch yn siŵr na fyddwch chi'n anghofio'r ARGLWYDD, nac yn peidio cadw'r gorchmynion, y canllawiau a'r rheolau dw i'n eu rhoi i chi heddiw. Pan fydd gynnoch chi fwy na digon i'w fwyta, tai braf i fyw ynddyn nhw, mwy o wartheg, defaid a geifr, digon o arian ac aur – yn wir, digon o bopeth – gwyliwch rhag i chi droi'n rhy hunanfodlon, ac anghofio'r ARGLWYDD eich Duw, wnaeth eich achub chi o wlad yr Aifft, lle roeddech chi'n gaethweision. Daeth yr ARGLWYDD â chi drwy'r anialwch mawr peryglus yna, oedd yn llawn nadroedd gwenwynig a sgorpionau. Roedd yn dir sych, lle doedd dim dŵr, ond dyma'r ARGLWYDD yn hollti craig, a gwneud i ddŵr bistyllio allan i chi ei yfed. Rhoddodd fanna i chi ei fwyta (profiad dieithr i'ch hynafiaid chi) er mwyn eich dysgu chi a'ch profi chi, a gwneud lles i chi yn y diwedd. Gwyliwch rhag i chi ddechrau meddwl, ‘Fi fy hun sydd wedi ennill y cyfoeth yma i gyd.’ Cofiwch mai'r ARGLWYDD eich Duw ydy'r un sy'n rhoi'r gallu yma i chi. Os cofiwch chi hynny, bydd e'n cadarnhau'r ymrwymiad wnaeth e ar lw i'ch hynafiaid chi. Mae wedi gwneud hynny hyd heddiw.

Deuteronomy 8:7-18

For the Lord your God is bringing you into a good land—a land with brooks, streams, and deep springs gushing out into the valleys and hills; a land with wheat and barley, vines and fig trees, pomegranates, olive oil and honey; a land where bread will not be scarce and you will lack nothing; a land where the rocks are iron and you can dig copper out of the hills.

When you have eaten and are satisfied, praise the Lord your God for the good land he has given you. Be careful that you do not forget the Lord your God, failing to observe his commands, his laws and his decrees that I am giving you this day. Otherwise, when you eat and are satisfied, when you build fine houses and settle down, and when your herds and flocks grow large and your silver and gold increase and all you have is multiplied, then your heart will become proud and you will forget the Lord your God, who brought you out of Egypt, out of the land of slavery. He led you through the vast and dreadful wilderness, that thirsty and waterless land, with its venomous snakes and scorpions. He brought you water out of hard rock. He gave you manna to eat in the wilderness, something your ancestors had never known, to humble and test you so that in the end it might go well with you. You may say to

yourself, “My power and the strength of my hands have produced this wealth for me.” But remember the Lord your God, for it is he who gives you the ability to produce wealth, and so confirms his covenant, which he swore to your ancestors, as it is today.

Salm 65

¹ Safwn yn dawel, a dy addoli yn Seion, O Dduw; a chyflawni'n haddewidion i ti.

² Ti sy'n gwrando gweddïau, boed i bob person byw ddod atat ti!

³ Pan mae'n holl bechodau yn ein llethu ni, rwyd ti'n maddau'r gwrthryfel i gyd.

⁴ Y fath fendith sydd i'r rhai rwyd ti'n eu dewis, a'u gwahodd i dreulio amser yn iard dy deml.

Llenwa ni â bendithion dy dŷ, sef dy deml sanctaidd!

⁵ Ti'n gwneud pethau syfrdanol i wneud pethau'n iawn, a'n hateb O Dduw, ein hachubwr.

Mae pobl drwy'r byd i gyd, ac ymhell dros y môr, yn dibynnu arnat ti.

⁶ Ti, yn dy nerth, roddodd y mynyddoedd yn eu lle;

Rwyd ti mor gryf!

⁷ Ti sy'n tawelu'r môr stormus, a'i donnau gwyllt, a'r holl bobloedd sy'n codi terfysg.

⁸ Mae pobl ym mhen draw'r byd wedi eu syfrdanu gan dy weithredoedd.

O'r dwyrain i'r gorllewin maen nhw'n gweiddi'n llawen.

⁹ Ti'n gofalu am y ddaear, yn ei dyfrio a'i gwneud yn hynod ffrwythlon.

Mae'r sianel ddwyfol yn gorlifo o ddŵr!

Ti'n rhoi ŷd i bobl drwy baratoi'r tir fel yma.

¹⁰ Ti'n socian y cwysi ac mae dŵr yn llifo i'r rhychau.

Ti'n mwyo'r tir â chawodydd, ac yn bendithio'r cnwd sy'n tyfu.

¹¹ Dy ddaioni di sy'n coroni'r flwyddyn!

Mae dy lwybrau'n diferu digonedd!

¹² Mae hyd yn oed porfa'r anialwch yn diferu. a'r bryniau wedi eu gwisgo â llawenydd!

¹³ Mae'r caeau wedi eu gorchuddio gyda defaid a geifr, a'r dyffrynnoedd yn gwisgo mantell o ŷd.

Maen nhw'n gweiddi ac yn canu'n llawen.

Psalm 65

¹ Praise awaits you, our God, in Zion; to you our vows will be fulfilled.

² You who answer prayer to you all people will come.

³ When we were overwhelmed by sins, you forgave our transgressions.

⁴ Blessed are those you choose and bring near to live in your courts!

We are filled with the good things of your house, of your holy temple.

Page 2 of 4

⁵ You answer us with awesome and righteous deeds,

God our Savior, the hope of all the ends of the earth and of the farthest seas,

⁶ who formed the mountains by your power, having armed yourself with strength,

⁷ who stilled the roaring of the seas, the roaring of their waves, and the turmoil of the nations.

⁸ The whole earth is filled with awe at your wonders; where morning dawns, where evening fades, you call forth songs of joy.

⁹ You care for the land and water it; you enrich it abundantly.

The streams of God are filled with water to provide the people with grain, for so you have ordained it

¹⁰ You drench its furrows and level its ridges; you soften it with showers and bless its crops.

¹¹ You crown the year with your bounty, and your carts overflow with abundance.

¹² The grasslands of the wilderness overflow; the hills are clothed with gladness.

¹³ The meadows are covered with flocks and the valleys are mantled with grain; they shout for joy and sing.

2 Corinthiaid 9:6-15

Hau yn hael

⁶ Cofiwch hyn: Os mai ychydig dych chi'n ei hau, bach fydd y cynhaeaf; ond os dych chi'n hau yn hael, cewch gynhaeaf mawr. ⁷ Dylai pob un ohonoch chi roi o'i wirfodd, dim yn anfodlon neu am fod pwysau arnoch chi. Mae Duw'n mwynhau gweld pobl sydd wrth eu boddau yn rhoi. ⁸ Mae Duw'n gallu rhoi mwy na digon o bethau'n hael i chi, er mwyn i chi fod â popeth sydd arnoch ei angen, a bydd digonedd dros ben i chi allu gwneud gwaith da bob amser. ⁹ Fel mae'n dweud yn yr ysgrifau sanctaidd:

“Mae'r duwiol yn rhoi yn hael i'r tlodion; bydd pobl yn cofio ei haelioni bob amser.”

Om ¹⁰ Duw sy'n rhoi'r had i'r heuwr a bwyd i bobl ei fwyta. ^{Croes} Bydd yn cynyddu eich stôr chi o 'had' ac yn gwneud i gynhaeaf eich gweithredoedd da chi lwyddo. ¹¹ Bydd yn eich gwneud chi'n gyfoethog ym mhob ffordd er mwyn i chi allu bod yn hael bob amser. Bydd llawer o bobl yn diolch i Dduw pan fyddwn ni'n mynd â'ch rhodd chi i Jerwsalem. ¹² Nid dim ond cwrdd ag angen pobl Dduw mae beth dych chi'n ei wneud — mae'n llawer mwy na hynny. Bydd yn gwneud i lawer o bobl ddweud diolch wrth Dduw. ¹³ Bydd pobl yn moli Duw am fod eich haelioni chi wrth rannu gyda nhw a phawb arall yn profi eich bod chi'n ufudd i'r newyddion da dych wedi ei gredu am y Meseia. ¹⁴ Byddan nhw'n gweddïo drosoch chi, ac yn hiraethu amdanoch chi, am fod Duw

04.10.2026

wedi'ch galluogi chi i fod mor hael. ¹⁵ A diolch i Dduw am ei fod e wedi rhoi rhodd i ni sydd y tu hwnt i eiriau!

2 Corinthians 9:6-15

Generosity Encouraged

⁶ Remember this: Whoever sows sparingly will also reap sparingly, and whoever sows generously will also reap generously. ⁷ Each of you should give what you have decided in your heart to give, not reluctantly or under compulsion, for God loves a cheerful giver. ⁸ And God is able to bless you abundantly, so that in all things at all times, having all that you need, you will abound in every good work. ⁹ As it is written: “They have freely scattered their gifts to the poor; their righteousness endures forever.”

¹⁰ Now he who supplies seed to the sower and bread for food will also supply and increase your store of seed and will enlarge the harvest of your righteousness. ¹¹ You will be enriched in every way so that you can be generous on every occasion, and through us your generosity will result in thanksgiving to God.

¹² This service that you perform is not only supplying the needs of the Lord’s people but is also overflowing in many expressions of thanks to God. ¹³ Because of the service by which you have proved yourselves, others will praise God for the obedience that accompanies your confession of the gospel of Christ, and for your generosity in sharing with them and with everyone else. ¹⁴ And in their prayers for you their hearts will go out to you, because of the surpassing grace God has given you. ¹⁵ Thanks be to God for his indescribable gift!

Luc 12:16-30

¹⁶ A dwedodd stori wrthyn nhw: “Roedd rhyw ddyn cyfoethog yn berchen tir, a chafodd gnwd arbennig o dda un cynhaeaf. ¹⁷ ‘Does gen i ddim digon o le i storio'r cwbl,’ meddai. ‘Beth wna i?’

¹⁸ “‘Dw i'n gwybod! Tynnu'r hen ysguboriau i lawr, ac adeiladau rhai mwy yn eu lle! Bydd gen i ddigon o le i storio popeth wedyn. ¹⁹ Yna bydda i'n gallu eistedd yn ôl a dweud wrtho i'n hun, “Mae gen i ddigon i bara am flynyddoedd lawer. Dw i'n mynd i ymlacio a mwynhau fy hun yn bwyta ac yn yfed.””

²⁰ “Ond dyma Duw yn dweud wrtho, ‘Y ffŵl dwl! Heno ydy'r noson rwy'ti'n mynd i farw. Pwy fydd yn cael y cwbl rwy'ti wedi'i gasglu i ti dy hun?’

²¹ “Te, fel yna bydd hi ar bobl sy'n casglu cyfoeth iddyn nhw'u hunain ond sy'n dlawd mewn gwirionedd, am eu bod heb Dduw.”

Peidiwch poeni

²² Yna dyma Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion: “Felly, dyma dw i'n ddweud – peidiwch poeni beth i'w fwyta a beth i'w wisgo. ²³ Mae mwy i fywyd na bwyd a dillad. ²⁴ Meddyliwch am gigfrain: Dyn nhw ddim yn hau nac yn medi, a does

ganddyn nhw ddim ystordy nac ysgubor – ac eto mae Duw'n eu bwydo nhw. Dych chi'n llawer mwy gwerthfawr yn ei olwg nag adar! ²⁵ Allwch chi ddim hyd yn oed gwneud eich bywyd eiliad yn hirach ^{Ref} drwy boeni! ²⁶ Os allwch chi ddim gwneud peth bach fel yna, beth ydy'r pwynt o boeni am bopeth arall?

²⁷ “Meddyliwch sut mae blodau'n tyfu. Dydyn nhw ddim yn gweithio nac yn nyddu. Ac eto, doedd hyd yn oed y Brenin Solomon yn ei ddillad crand ddim yn edrych mor hardd ag un ohonyn nhw. ^{Croes} ²⁸ Os ydy Duw yn gofalu fel yna am flodau gwyllt (sy'n tyfu heddiw, ond yn cael eu llosgi fel tanwydd fory), mae'n siŵr o ofalu amdanoch chi! Ble mae'ch ffydd chi? ²⁹ Felly peidiwch treulio'ch

bywyd yn poeni am fwyd a diod! ³⁰ Pobl sydd ddim yn credu sy'n poeni am bethau felly. Mae'ch Tad yn gwybod beth sydd ei angen arnoch chi. ³¹ Gwnewch yn siŵr mai'r flaenoriaeth i chi ydy ymostwng i deyrnasiad Duw, ac wedyn cewch y pethau eraill yma i gyd.

Luke 12:16-30

¹⁶ And he told them this parable: “The ground of a certain rich man yielded an abundant harvest. ¹⁷ He thought to himself, ‘What shall I do? I have no place to store my crops.’

¹⁸ “Then he said, ‘This is what I’ll do. I will tear down my barns and build bigger ones, and there I will store my surplus grain. ¹⁹ And I’ll say to myself, “You have plenty of grain laid up for many years. Take life easy; eat, drink and be merry.”’

²⁰ “But God said to him, ‘You fool! This very night your life will be demanded from you. Then who will get what you have prepared for yourself?’

²¹ “This is how it will be with whoever stores up things for themselves but is not rich toward God.”

Do Not Worry

²² Then Jesus said to his disciples: “Therefore I tell you, do not worry about your life, what you will eat; or about your body, what you will wear. ²³ For life is more than food, and the body more than clothes. ²⁴ Consider the ravens: They do not sow or reap, they have no storeroom or barn; yet God feeds them. And how much more valuable you are than birds! ²⁵ Who of you by worrying can add a single hour to your life^[a]? ²⁶ Since you cannot do this very little thing, why do you worry about the rest?

²⁷ “Consider how the wild flowers grow. They do not labor or spin. Yet I tell you, not even Solomon in all his splendor was dressed like one of these. ²⁸ If that is how God clothes the grass of the field, which is here today, and tomorrow is thrown into the fire, how much more will he clothe you—you of little faith! ²⁹ And do not set your heart on what you will eat or drink; do not worry about it. ³⁰ For the pagan world runs after all such things, and your Father knows that you need them.

Ôl Gymun 346

Arglwydd y cynhaeaf, yr ydym wedi offrymu diolchgarwch yn llawen am dy gariad yn y greadigaeth ac wedi cyfranogi o fara a gwin y deyrnas: trwy dy ras planna ynom y fath barch at bopeth yr wyt yn rhoi inni fel y byddwn yn stiwardiaid doeth o'r pethau da yr ydym yn eu mwynhau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Post Communion 346

Lord of the harvest, with joy we have offered thanksgiving for your love in creation and have shared in the bread and wine of the kingdom: by your grace plant within us such reverence for all that you give us that will make us wise stewards of the good things we enjoy; through Jesus Christ our Lord.